ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Scroll down for English version

TREFNIADAU CAU

18/03/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ga i ddiolch i chi am eich amynedd a'ch cefnogaeth dros y diwrnodau diwethaf, gyda chymaint o newidiadau yn y negeseuon oherwydd datblygiadau cyflym a chyson!

Rwy'n siŵr bellach eich bod yn hollol ymwybodol y bydd ysgolion, gan gynnwys Bryn Tawe, yn cau ddydd Gwener. Dyma yw ein cynllun ar hyn o bryd, ond fel gallwch ddychmygu gydag absenoldebau staff am resymau clir, mae cynnal yr ysgol yn mynd yn heriol. Os bydd newid, fe wnâ i eich hysbysu drwy neges destun sydyn. Gweler datganiad y Gwienidog isod:

https://llyw.cymru/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru

Rwy'n falch iawn o waith ein staff dros yr wythnosau diwethaf wrth iddynt baratoi i ddarparu gwasanaeth dysgu o bellter oherwydd y sefyllfa ddigynsail rydym yn ei hwynebu. Yn ogystal, mae agwedd ac ymdrech ein disgyblion wedi bod yn arbennig. Yn naturiol, y mae'r cyhoeddiadau i beidio â pharhau ag arholiadau'r haf yn destun siom i nifer, ac o bosib yn codi pryder am beth fydd yn digwydd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fanylion, ond byddwn yn sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn pob cefnogaeth fel bod eu graddau yn adlewyrchiad teg o'u hymdrechion cyson dros y 5 neu'r 7 blynedd ddiwethaf.

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadaur-haf

Rydym mewn cyfnod digynsail, sydd yn dod ag ansicrwydd a phryder i ni gyd. Mae'n allweddol ein bod yn cefnogi ein gilydd a bod ein disgyblion a'u teuluoedd yn cymryd y gofal gorau o'u hunain. Byddwn yn parhau i annog ein disgyblion i ddilyn y canllawiau pwysig i osgoi lledaenu'r feirws tra yn yr ysgol ac yn aros mewn cyswllt cyson gyda chi a'ch plant yn ystod yr wythnosau sydd i ddod. Gwiriwch y linc isod ar gyfer y wybodaeth a'r cyngor diweddaraf ar gyfer di-hientio a'r camau i'w cymryd i sicrhau eich bod chi a'ch teuluoedd yn ddiogel.

https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/

Byddwn yn sicrhau ein bod yn eich cadw mewn gwybodaeth am unrhyw ddatblygiadau pellach – plîs defnyddiwch ein gwefan a dilynwch ni ar trydar - @bryntawe – am ddiweddariadau a gwybodaeth. Os oes unrhyw gwestiwn gennych, plîs cysylltwch. Cadwch yn ddiogel.

Cofion cynnes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru School of Rugby
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ysgol gyfun gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

CLOSING ARRANGEMENTS

18/03/20

Dear Parent / Guardian,

May I thank you for your patience and support over the past few days, with so many changes in the messages due to rapid and consistent developments!

You are probably now well aware that schools, including Bryn Tawe, will close on Friday. This is our plan at the moment, but as you can imagine with staff absences for obvious reasons, maintaining the school is becoming challenging. If there is a change, you will be notified by text message as soon as possible. See the Minister's statement below for reference:

https://gov.wales/statement-minster-education-kirsty-williams-school-closures-wales

I am very proud of the work of our staff over the last few weeks as they prepare to provide a distance learning service, given the unprecedented situation we face. In addition, the attitude and effort of our pupils has been outstanding. Naturally, the announcement not to continue with the summer exams may be source of disappointment to many and may raise concerns about what will happen with results. At present, there are no details, but we will ensure that our pupils receive every support so that their grades are a good reflection of their consistent efforts over the last 5 or 7 years.

https://gov.wales/written-statement-written-statement-summer-examinations-2020

We are in an unprecedented time, which creates uncertainty and anxiety to all. It is vital that we support each other and that our pupils and their families take the utmost care of themselves. We will continue to encourage our pupils to follow the important guidelines to avoid spreading the virus while in school and we will remain in regular contact with you and your children over the coming weeks. Check the link below for the latest information, advice and the actions to take to make sure you and your families are safe.

https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/

We'll make sure we keep you informed of any further developments - please use our website and follow us on twitter - @bryntawe - for updates and information. If you have any questions, please get in touch. Stay safe.

Kindest regards,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales